YSTADEGAU SWYDDOGOL

Adroddiad blynyddol ar y farchnad gymwysterau: blwyddyn academaidd 2018 i 2019 yng Nghymru

Uchafbwyntiau

07 Chwefror 2020

Ffigur 1: Cyfres amser tystysgrifau yn ôl math



Ffynhonnell: Casgliadau data Chwarterol Galwedigaethol (cyn-2019 Ofqual, 2019 ymlaen CC) a Casgliadau data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen CC)

Gostyngodd cyfanswm yr ardystiadau 46,920 (5.6%) i 790,115. Y corff dyfarnu â'r gyfran fwyaf o'r farchnad oedd CBAC gyda chyfran o 61.5% o'r farchnad, i fyny o 60.4% y llynedd.

Ffigur 2: Cyfran y farchnad y 3 chorff dyfarnu uchaf



Ffynhonnell: Casgliadau data Chwarterol Galwedigaethol (cyn-2019 Ofqual, 2019 ymlaen CC) a Casgliadau data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen CC)

Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig sydd ar gael i'w dyfarnu yng Nghymru dros y flwyddyn academaidd 2018/19 a nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd. Rhoddir gwybod am ystadegau ar sail blwyddyn academaidd. Cesglir data cymwysterau cyffredinol ar sail blwyddyn academaidd. Cesglir data cymwysterau galwedigaethol ar sail blwyddyn galendr ond fe'u brasamcanir ar sail blwyddyn academaidd trwy ddefnyddio data ar gyfer mis Hydref i fis Medi ar gyfer blwyddyn academaidd.

Cynnwys

Cyflwyniad.....2
Ystadegau.....3
Rhestr Termau.....10
Nodiadau cefndir.....11

Ystadegydd: Hannah Williams 01633 373 292 ystadegau@cymwysteraucymru.org

Ymholiadau'r cyfryngau: Alan Morris 01633 373 216 cyfathrebu@cymwysteraucymru.org

CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, heblaw graddau, yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015[1], ein prif nodau yw sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru a hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data am nifer a mathau'r cymwysterau sydd ar gael i'w dyfarnu yng Nghymru dros y flwyddyn academaidd 2018/19 gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig (cyrff a gydnabyddir gennym ni i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau). At ddibenion yr adroddiad hwn, ystyrir blwyddyn academaidd 2018/19 fel dechrau Medi 2018 hyd ddiwedd Awst 2019. Cesglir data cymwysterau cyffredinol ar sail blwyddyn academaidd. Cesglir data cymwysterau galwedigaethol ar sail blwyddyn galendr ond fe'u brasamcanir ar sail blwyddyn academaidd (dehonglir data ar gyfer mis Hydref i fis Medi yn gynhwysol yma fel blwyddyn academaidd Medi i Awst). Mae'n rhoi trosolwg o'r farchnad gymwysterau ac yn cynnig un pwynt cyfeirio am gyfranogwyr yn y farchnad.

Mae'r data a gyflwynir yn y datganiad hwn yn cynnwys nifer y cyrff dyfarnu, cymwysterau rheoledig a thystysgrifau a ddyfernir ar gyfer pob math o gymwysterau. Cyflwynir cyfran y farchnad o dystysgrifau ymhellach ar gyfer cymwysterau TGAU, lefel UG a Safon Uwch yn ôl y corff dyfarnu. Cyflwynir cyfran y farchnad o dystysgrifau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill yn ôl y maes pwnc sector, corff dyfarnu a lefel cymwysterau.

Cynhyrchir yr adroddiad hwn yn flynyddol ac mae'n seiliedig yn bennaf ar wybodaeth yr ydym yn ei chadw neu'n ei chasglu gan gyrff dyfarnu a'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ).

Sylwch lle mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at gymwysterau 'galwedigaethol a chymwysterau eraill', mae hyn yn golygu pob cymhwyster heblaw TGAU, UG a Safon Uwch.

Lle mae ffigurau ar gael yn gyhoeddus, fe'u cyflwynir i gywirdeb llawn. Mae ffigurau nifer y tystysgrifau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf, gyda gwerthoedd 1 i 4 wedi'u dynodi gyda "*". Nid yw'r ffigurau ar gyfer nifer y cymwysterau wedi'u talgrynnu. Mae mwy o wybodaeth am y datganiad hwn ar gael yn y wybodaeth gefndir yn ogystal â'r tablau data sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted

YSTADEGAU

Faint o gyrff dyfarnu sydd yna yng Nghymru?

Ffigur 3: Cyrff dyfarnu cydnabyddedig ar 31 Awst



Ffynhonnell: Cymwysterau Cymru

Dangosodd cyfrif o nifer y cyrff dyfarnu cydnabyddedig ar 31 Awst 2019 ostyngiad o 8 (7.5%) yn y flwyddyn ddiwethaf i 99. Ers sefydlu Cymwysterau Cymru (21 Medi 2015) mae yna 34 (25.6%) yn llai o gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Mae rhywfaint o'r gostyngiad hwn yn ganlyniad i'r ffaith fod cyrff dyfarnu wedi bod yn anweithredol oherwydd nad oedd ganddynt ddysgwyr yng Nghymru.

Faint o gymwysterau cymeradwy a dynodedig sydd yna yng Nghymru?

Ffigur 4: Nifer y cymwysterau cymeradwyr



Ffynhonnell: Cymwysterau yng Nghymru, cyrchwyd 08 Ionawr 2020)

Ffigur 5: Nifer y cymwysterau dynodedig



Ffynhonnell: Cymwysterau yng Nghymru, cyrchwyd 08 Ionawr 2020

Mae cymwysterau cymeradwy wedi bodloni meini prawf a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer Cymru. Mae cymwysterau dynodedig yn gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus. Roedd 6,607 o gymwysterau cymeradwy neu ddynodedig ar gael yn 2018/19, gostyngiad o 1,678 (20.3%) o gymharu â 2017/18. Ers 2015/16 mae nifer y cymwysterau dynodedig wedi gostwng 3,740 (36.7%) i 6,451, ac mae nifer y cymwysterau cymeradwy wedi cynyddu 54 (52.9%) i 156. Mae hyn yn cynrychioli nifer y cymwysterau cymeradwy neu ddynodedig y gellid bod wedi'u dyfarnu (ond na chawsant eu dyfarnu o reidrwydd) yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19.

Pa fathau o gymwysterau cymeradwy a dynodedig sydd ar gael yng Nghymru?

Tabl 1: Cymwysterau yn ôl math

Qualification Type	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Galwedigaethol ac Eraill(1)	9,364	8,789	7,569	6,169
TAG Safon Uwch	246	258	209	154
TAG UG	243	256	207	150
TGAU	411	381	280	117
Prosiect	13	13	11	8
Bagloriaeth Cymru	8	8	8	8
Dyfarniad estynedig uwch	1	1	1	1
Prif ddysgu	7	2	0	0
Cyfanswm	**10,293**	**9,708**	**8,285**	**6,607**

Ffynhonnell: Cymwysterau yng Nghymru, cyrchwyd 08 Ionawr 2020

(1) Mae Galwedigaethol ac Eraill yn cynnwys: FfCCh; Cyffredinol arall; Yn gysylltiedig â galwedigaethol; AHGC; AHGP; Lefel mynediad; Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill; Sgiliau Hanfodol Cymru; Lefel Uwch; Cymhwyster galwedigaethol; Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol; Sgiliau Allweddol.

Mae data o gronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru[2] yn dangos bod nifer y cymwysterau cymeradwy neu ddynodedig yng Nghymru wedi gostwng 1,678 (20.3%) yn 2018/19 i 6,607. Cafodd hyn ei sbarduno gan ostyngiadau mewn cymwysterau 'Galwedigaethol ac Eraill' a ostyngodd 1,400 (18.5%), TGAU a ostyngodd 163 (58.2%), a lefelau UG ac Uwch a ostyngodd 57 (27.5%) a 55 (26.3%) yn y drefn honno. Mae'r gostyngiad mewn TGAU, UG a Safon Uwch yn ganlyniad i ddiwygiadau i gymwysterau cyffredinol a'r symud at un darparwr yng Nghymru.

Faint o dystysgrifau a ddyfarnwyd yng Nghymru?

Ffigur 6: Ardystiadau yn ôl math o gymhwyster



Ffynhonnell: Casgliadau data Chwarterol Galwedigaethol (cyn-2019 Ofqual, 2019 ymlaen CC) a Casgliadau data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen CC)

Gostyngodd cyfanswm nifer y tystysgrifau a ddyfarnwyd yn 2018/19 46,920 (5.6%) i 790,115. Gwelodd TGAU, lefelau UG, Safon Uwch a Chymwysterau Galwedigaethol i gyd ostyngiad mewn tystysgrifau yn 2018/19, gydag UG yn dangos y gostyngiad cyfraneddol mwyaf (7.4%).

[2] https://www.qiw.wales/?lang=cy

Pa rai yw'r cyrff dyfarnu mwyaf yng Nghymru?

Tabl 2: Nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd yn tynnu sylw at y pum corff dyfarnu uchaf

Corff Dyfarnu	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
WJEC-CBAC	562,855	510,225	533,785	505,475	485,810
City and Guilds of London Institute	117,995	91,785	88,625	89,640	80,735
Pearson Education Ltd	123,405	105,750	72,785	58,595	41,070
Highfield Qualifications	19,210	20,275	24,975	32,490	32,645
Agored Cymru	7,070	8,650	10,150	17,975	20,630
Cyrff Dyfarnu eraill	225,065	200,520	170,870	132,855	129,225
Cyfanswm	**1,055,600**	**937,205**	**901,190**	**837,035**	**790,115**

Ffynhonnell: Casgliadau data Chwarterol Galwedigaethol (cyn-2019 Ofqual, 2019 ymlaen CC) a Casgliadau data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen CC)

Gwelodd CBAC ostyngiad o 19,670 o dystysgrifau (3.9%) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ond mae'n parhau i fod y corff dyfarnu gyda'r nifer fwyaf o dystysgrifau. Yn 2018/19 dyfarnodd CBAC 485,810 o dystysgrifau yng Nghymru, gan gyfrif am 61.5% o'r holl dystysgrifau, i fyny o 60.4% y llynedd. Roedd y pum corff dyfarnu mwyaf yn cyfrif am 83.6% o'r holl dystysgrifau a gyhoeddwyd. Er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol mewn tystysgrifau, mae Highfield Qualifications ac Agored Cymru wedi gweld tuedd ar i fyny ers 2014/15, ac mae'r ddau wedi cynyddu eu cyfran o'r farchnad yn 2018/19, o 0.2 pp a 0.5 pp yn y drefn honno.

Beth yw cyfran marchnad TGAU cyrff dyfarnu yng Nghymru?

Tabl 3: Nifer y tystysgrifau TGAU a gyhoeddwyd yn ôl corff dyfarnu

Corff Dyfarnu	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
AQA	19,895	18,425	13,565	3,485	2,680
CCEA	45	30	20	5	15
OCR	7,125	6,305	4,355	520	410
Pearson	14,920	10,230	5,545	1,735	1,165
CBAC	294,330	299,215	370,805	339,550	323,480
Cyfanswm	**336,315**	**334,200**	**394,285**	**345,300**	**327,750**

Ffynhonnell: Casgliadau data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen CC)

Dyfarnwyd 327,750 o dystysgrifau TGAU yn 2018/19, gostyngiad o 17,550 o dystysgrifau (5.1%) o gymharu â 2017/18. Gwelodd CBAC ostyngiad o 16,070 o dystysgrifau (4.7%) i 323,480 ond, fel unig ddarparwr TGAU cymeradwy, mae'n parhau i ddyfarnu mwyafrif helaeth y tystysgrifau TGAU yng Nghymru.

Beth yw cyfran marchnad lefel UG a Safon Uwch cyrff dyfarnu yng Nghymru?

Tabl 4: Nifer y tystysgrifau UG a Safon Uwch a gyhoeddwyd yn ôl corff dyfarnu

Corff Dyfarnu	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
AQA	10,775	6165	2,415	1,595	1,110
CCEA	5	0	0	0	0
OCR	7,435	4730	2,160	1,275	460
Pearson	4,480	3400	2,285	1,365	1,035
CBAC	72,685	76505	77,115	74,175	71,240
Cyfanswm	**95,375**	**90805**	**83,975**	**78,410**	**73,845**

Ffynhonnell: Casgliadau data Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau (cyn-2017 Ofqual, 2017 ymlaen CC)

Parhaodd nifer y tystysgrifau UG a Safon Uwch a gyhoeddwyd i ostwng yn 2018/19.[3] Ers 2014/15 mae nifer y tystysgrifau UG a Safon Uwch a gyhoeddwyd yng Nghymru wedi gostwng 21,530 (22.6%).Yn 2018/19 gostyngodd nifer y tystysgrifau TAG a gyhoeddwyd 4,565 (5.8%) i 73,845. O'r rhain, cyhoeddwyd 71,240 gan CBAC, gan gyfrif am 96.5% o'r holl dystysgrifau a gyhoeddwyd (i fyny o 94.6% yn 2017/18).

[3] https://qualificationswales.org/cymraeg/gwybodaeth-i-randdeiliaid/ir-wasg/blogiau-ac-erthyglau/why-are-as-level-and-a-level-entries-continuing-to-fall-in-wales/

Beth yw cyfran y farchnad cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill cyrff dyfarnu yng Nghymru?

Tabl 5: Nifer y tystysgrifau galwedigaethol a thystysgrifau eraill a gyhoeddwyd sy'n tynnu sylw at y deg corff dyfarnu uchaf

Corff dyfarnu	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
WJEC-CBAC	195,360	134,175	85,755	91,605	90,925
City and Guilds of London Institute	117,995	91,785	88,625	89,640	80,735
Pearson Education Ltd	103,895	92,080	64,920	55,480	38,860
Highfield Qualifications	19,210	20,275	24,975	32,490	32,645
Agored Cymru	7,070	8,650	10,150	17,975	20,630
Qualsafe Awards	7,000	9,045	9,505	12,055	14,070
Associated Board of the Royal Schools of Music	12,480	10,795	11,310	10,480	10,465
Excellence, Achievement & Learning Limited	10,330	7,335	7,205	8,205	8,685
Trinity College London	4,875	6,680	6,780	8,830	8,410
NCFE	4,890	3,935	2,770	4,225	6,325
Cyrff dyfarnu eraill	140,175	127,020	110,705	82,110	76,485
Cyfanswm	**623,285**	**511,780**	**422,695**	**413,090**	**388,240**

Ffynhonnell: Casgliadau data Chwarterol Galwedigaethol (cyn-2019 Ofqual, 2019 ymlaen Cymwysterau Cymru)

Mae nifer y tystysgrifau cymwysterau galwedigaethol wedi bod yn gostwng ers 2014/15. Gallai newidiadau i fesurau perfformiad fod yn effeithio ar nifer yr ardystiadau mewn cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill dros amser, yn enwedig ar lefelau 1 i 3. Er enghraifft, o 2017, cafodd cymwysterau galwedigaethol eu capio i ddarparu uchafswm o 40% y pwyntiau ar gyfer mesurau trothwy ysgolion (Cyfnod Allweddol 4) Llywodraeth Cymru. Yn 2018, cyflwynodd Llywodraeth Cymru newid i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 mewn perthynas â gwyddoniaeth gyda chymwysterau Gwyddoniaeth TGAU yn unig yn cyfrif. Yn flaenorol, caniatawyd i gymwysterau gwyddoniaeth alwedigaethol gyfrif.[4] Gallai newidiadau i nifer y cymwysterau sy'n cyfrannu at Fagloriaeth Cymru hefyd fod wedi effeithio ar nifer y cymwysterau galwedigaethol a ddyfarnwyd. Ers 2014/15 mae nifer y tystysgrifau cymwysterau galwedigaethol a gyhoeddwyd wedi gostwng 235,045 (37.7%). Yn 2018/19 gostyngodd nifer y tystysgrifau cymwysterau galwedigaethol a gyhoeddwyd 24,850 (6.0%) i 388,240. Roedd y deg corff dyfarnu â'r nifer fwyaf o dystysgrifau yn cyfrif am 80.3% o gyfanswm y

[4] Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am newidiadau i fesurau perfformiad yng Nghymru yn: https://digitalanddata.blog.gov.wales/2017/12/06/chief-statisticians-update-understanding-changes-to-education-data/ [Cyrchwyd 24 Ionawr 2019].

tystysgrifau a gyhoeddwyd yn 2018/19. Cyhoeddodd CBAC 90,925 o dystysgrifau, gostyngiad o 680 (0.7%), gan gyfrif am 23.4% o'r holl dystysgrifau a gyhoeddwyd. Mae tystysgrifau a ddyfarnwyd gan CBAC yn cynnwys Tystysgrif Bagloriaeth Cymru a Thystysgrif Her Sgiliau.

Faint o dystysgrifau cymwysterau galwedigaethol a gyhoeddwyd ym mhob maes pwnc?

Tabl 6: Nifer y tystysgrifau Cymwysterau Galwedigaethol a thystysgrifau Eraill a gyhoeddwyd yn ôl maes pwnc sector

Maes pwnc sector	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
01 Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal	66,960	70,650	69,705	72,670	61,685
02 Gwyddoniaeth a Mathemateg	19,650	18,005	13,285	6,180	5,520
03 Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid	8,405	6,495	8,030	6,760	4,415
04 Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu	26,145	25,290	24,405	21,370	20,885
05 Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig	17,460	18,295	19,315	17,710	21,930
06 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	13,955	12,315	9,495	7,555	5,970
07 Manwerthu a Mentrau Masnachol	38,650	29,530	29,040	28,545	26,395
08 Hamdden, Teithio a thwristiaeth	19,615	16,925	16,115	15,775	15,845
09 Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a Chyhoeddi	31,330	29,030	30,125	28,400	26,520
10 Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth	300	255	260	135	70
11 Gwyddorau Cymdeithasol	115	120	130	390	1,010
12 Ieithoedd, Llenyddiaeth a Diwylliant	12,575	12,610	13,450	10,635	6,035
13 Addysg a Hyfforddiant	4,745	3,780	3,440	4,465	4,555
14 Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith	338,890	247,190	163,050	169,205	164,885
15 Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith	24,485	21,290	22,845	23,290	22,520
Cyfanswm	**623,285**	**511,780**	**422,695**	**413,090**	**388,240**

Ffynhonnell: Casgliadau data Chwarterol Galwedigaethol (cyn-2019 Ofqual, 2019 ymlaen Cymwysterau Cymru)

Yn 2018/19, y maes pwnc sector (SSA) gyda nifer fwyaf y tystysgrifau oedd 'Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith', a oedd yn cyfrif am 164,885 o dystysgrifau, 42.5% o'r cyfanswm. Er gwaethaf gostyngiad cyffredinol mewn tystysgrifau, gwelodd y sectorau 'Gwyddorau Cymdeithasol' ac 'Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig' gynnydd nodedig yn 2018/19, o 159.8% a 23.8% yn y drefn honno.

Faint o dystysgrifau cymwysterau galwedigaethol a gyhoeddwyd ar bob lefel?

Tabl 7: Nifer y tystysgrifau Cymwysterau Galwedigaethol a thystysgrifau Eraill a gyhoeddwyd yn ôl lefel

Lefel y Cymhwyster	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Lefel Mynediad	33,540	33,990	33,365	31,290	32,480
Lefel 1	108,095	86,010	63,705	57,855	53,995
Lefel 1/2	9,360	16,140	64,565	63,865	63,495
Lefel 2	318,695	246,230	166,670	141,025	127,340
Lefel 3	147,550	122,550	85,750	108,275	101,150
Lefel 4	2,320	2,550	3,535	4,705	4,470
Lefel 5	3,340	3,620	4,135	4,825	3,945
Lefel 6	220	550	745	870	805
Lefel 7	155	145	220	375	560
Lefel 8	0	5	*	*	*
Cyfanswm	**623,285**	**511,780**	**422,695**	**413,090**	**388,240**

Ffynhonnell: Casgliadau data Chwarterol Galwedigaethol (cyn-2019 Ofqual, 2019 ymlaen Cymwysterau Cymru)

Dyfarnwyd 127,340 o dystysgrifau ar gyfer cymwysterau lefel 2 yn 2018/19, gostyngiad o 13,685 (9.7%) o'i gymharu â'r llynedd. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae cymwysterau lefel 2 yn cyfrif am 32.8% o'r holl dystysgrifau cymwysterau galwedigaethol, mwy nag unrhyw lefel arall. Gallai newidiadau i'r mesurau perfformiad a grybwyllir uchod fod yn effeithio ar y gostyngiad mewn ardystiadau.

RHESTR TERMAU

Safon Uwch

Lefel Uwch Tystysgrif Addysg Gyffredinol, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch. Cymwysterau a gymerir, ar ôl TGAU, mewn ystod o bynciau, a gymerir fel arfer yn 16-18 oed ac fel arfer yn dilyn cwrs astudio dwy flynedd. Fe'u defnyddir fel sail ar gyfer derbyniadau i addysg uwch, hyfforddiant pellach neu fynediad i gyflogaeth.

Cymeradwy

Cymwysterau a adolygwyd i sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf cymeradwyo. Fe'u rheoleiddir o dan Amodau Cydnabod Safonol ac unrhyw amodau cymeradwyo sy'n berthnasol.

Uwch Gyfrannol (UG)

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei sefyll fel cymhwyster annibynnol. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n cyfrannu at y canlyniad Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau UG gyfrannu at Safon Uwch.

Corff dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn rhoi dyfarniadau i ddysgwyr, gan gydnabod y canlyniadau dysgu (gwybodaeth, sgiliau a / neu gymwyseddau) yn ffurfiol, gan ddilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU gelwir y rhain yn Sefydliadau Dyfarnu neu'n Fyrddau Arholi.

Dynodwyd

Dynodwyd yn gymwys i'w ddefnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus, ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed. Rhaid bodloni materion dynodi. Rheoleiddir o dan Amodau Cydnabod Safonol.

TAG

Grŵp o gymwysterau gan gynnwys Lefel Uwch ac Uwch Gyfrannol (UG).

TGAU

Mae Tystysgrifau Cyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn ystod eang o bynciau. TGAU yw'r prif gymwysterau cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 yn 14-16 oed yng Nghymru. Gellir eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer astudio neu hyfforddi ar lefel uwch, neu i gael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

Maes Pwnc Sector

System ddosbarthu ar gyfer pwnc astudio mewn cymhwyster.

NODIADAU CEFNDIR

Ar 21 Tachwedd 2017 cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017[5] a enwodd Gymwysterau Cymru fel un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007[6]. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu yn unol â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau y DU ar gyfer Ystadegau Swyddogol[7] ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swyddogol.

Ffynhonnell Data

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau wedi cyflwyno gwybodaeth i Gymwysterau Cymru am nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd ar gyfer pob cymhwyster galwedigaethol a nifer y tystysgrifau ar gyfer pob math o gymhwyster cyffredinol sydd ar gael ym mlwyddyn academaidd 2018/19. Mae'r cofnodion ar gyfer canolfannau yng Nghymru yn unig, waeth pa fath o ganolfannau ydynt.

Cyfyngiadau data

Mae gwall posibl yn y wybodaeth a ddarperir gan gyrff dyfarnu.Felly, ni all Cymwysterau Cymru warantu bod y wybodaeth a dderbynnir yn gywir.Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio am broblemau systematig. Cyflawnir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i wneud yn sicr bod y data'n gywir ac i'w herio neu ei gwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus trwy:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â hwy yn ystod y dyluniad cychwynnol ac unrhyw gamau a ddilynir pan wneir newidiadau;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) fod yn rhaid i'r holl ddata fod yn hollol gywir fel amod o gael eu rheoleiddio;
- Bod yn effro i newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir trwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddi os nad ystyrir bod yr ystadegau yn addas at y diben.

---

[5] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1142/made

[6] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/18/contents

[7] https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/

Cymariaethau

O 2017/18 ymlaen roedd cyrff dyfarnu yn cyflwyno data i Gymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid dehongli cymariaethau â data hanesyddol Ofqual yn ofalus.

Ymdriniaeth Ddaearyddol

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data am nifer y tystysgrifau ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Diwygiadau

Ar ôl eu cyhoeddi, nid yw data am nifer y cyrff dyfarnu, cymwysterau a thystysgrifau cydnabyddedig fel arfer yn destun adolygiad, er y gellir adolygu datganiadau dilynol i gywiro gwall.

Cyflawnrwydd y data

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data am gofrestriadau ar gyfer yr holl gymwysterau a reoleiddir at Gymwysterau Cymru. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd set gyflawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i sicrhau bod y data mor gyflawn â phosibl.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

I warchod cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi allbynnau ystadegol interim Cymwysterau Cymru[8], mae'r holl ffigurau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd wedi'u talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae ffigyrau llai na 5 ond yn fwy na 0 yn cael eu disodli gan *. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw data'n datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau yn y sylwebaeth yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddant yr un fath â'r cyfanswm.

Defnyddwyr yr ystadegau hyn

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Gymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu, a Llywodraeth Cymru. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn i fonitro'r farchnad cymwysterau yng Nghymru.

---

[8] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/interim-statistical-outputs-policy/

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r un hwn, gan gynnwys:

- Bwletin Chwarterol Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill: Chwarter 3 (Gorffennaf - Medi 2019) i Gymru[9].
- Cofrestriadau a chofrestriadau hwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2018/19[10].
- Cyhoeddiad blynyddol Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru[11].
- Yr 'Annual qualifications market report' ar gyfer Lloegr, a gyhoeddir gan Ofqual[12].

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 10 i'ch helpu chi i ddehongli'r datganiad hwn. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan Llywodraeth Cymru[13].

Mae cofrestr CC (QiW)[14] yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael cyllid cyhoeddus yng Nghymru.

Cyhoeddir ystadegau am y farchnad gymwysterau yn Lloegr gan Ofqual[15].

Y diweddariad nesaf

Chwefror 2021 (dros dro).

Adborth defnyddwyr

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei anfon trwy e-bost i ystadegau@cymwysteraucymru.org.

© (2020) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu'r ddogfen hon ar yr amod y cyfeirir at Gymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.

9 https://www.qualificationswales.org/media/5282/release-2019-q3-cymraeg.pdf

10 https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cofrestriadau-a-chofrestriadau-hwyr-ar-gyfer-tgau-a-safon-uwch-yng-nghymru-blwyddyn-academaidd-201819/

11 https://llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion

12 https://www.gov.uk/government/statistics/annual-qualifications-market-report-academic-year-2017-to-2018

13 https://gov.wales/statistics-and-research/?upcoming=true&lang=cy

14 https://www.qiw.wales/?lang=cy

15 https://www.gov.uk/government/organisations/ofqual/about/statistics